




GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda  
University Health Board



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

# Strategaeth Anabledd Dysgu Ceredigion



Caru•Love  
**Ceredigion**

I gael copi o'r cyhoeddiad hwn mewn print mawr, Braille, tâp sain, fersiwn hawdd ei darllen neu iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Ceredigion ar (01545) 570881

## Rhagair a Chyflwyniad – Aelodau Cabinet Ceredigion dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Eiriolwyr dros Bobl ag Anableddau Dysgu

Fel Eiriolwyr dros Bobl ag Anableddau Dysgu a'u Gofalwyr, rydym yn croesawu datblygiad Strategaeth Ceredigion ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu (y Strategaeth). Mae'r strategaeth hon yn gosod y weledigaeth ar gyfer cydweithio rhwng Cyngor Sir Ceredigion (CSC), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd), pobl ag anableddau dysgu, eu rhieni a'u Gofalwyr, asiantaethau sy'n bartneriaid a chymunedau lleol. Y bwriad yw gwella ansawdd bywyd pobl sydd ag anabledd dysgu, a'u Gofalwyr, sy'n byw, gweithio a chymdeithasu yng Ngheredigion.

Disgrifir pobl ag anabledd dysgu yn Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru (Mawrth 2017) fel:

- rhai sydd â gallu sylweddol is i ddeall gwybodaeth newydd neu gymhleth a dysgu sgiliau newydd (nam deallusol),
- rhai sydd â llai o allu i ymdopi'n annibynnol (nam gweithredu cymdeithasol) neu
- mae'r nodweddion hyn i'w gweld cyn iddyn nhw ddod yn oedolion ac maent yn cael effaith barhaol ar ddatblygiad.

Un o amcanion allweddol y Strategaeth hon yw gwella ansawdd bywyd pobl sydd ag anabledd dysgu drwy sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn canolbwyntio mwy ar y dinasyddion a'r gymuned. Mae'r Strategaeth yn adlewyrchu'r bwriad i hyrwyddo dewis a rheolaeth bob amser ar gyfer pob un sydd ag anabledd dysgu, gan gynnwys pobl ifanc sydd angen cymorth wrth iddyn nhw ddod yn oedolion. Mae gan holl Gyfarwyddiaethau CSC a BIPHDd gyfrifoldeb i sicrhau bod pobl sydd ag anabledd dysgu'n cael dweud eu dweud, wrth ddatblygu neu ail-gynllunio gwasanaethau ar gyfer Ceredigion. Byddwn yn sicrhau y bydd hyn yn dylanwadu ar, ac yn bwydo mewn i gynlluniau a strategaethau eraill o fewn Cyngor Sir Ceredigion.

Ar ôl dosbarthu holiaduron, mae nifer fawr o ddigwyddiadau ymgysylltu'n cael eu cynnal i'n helpu i ddeall beth sydd bwysicaf i'r rhan fwyaf o bobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Bydd y Strategaeth yn dwyn ynghyd ddyheadau pobl ag anableddau dysgu, eu rhieni a'u gofalwyr, staff Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ac yn eu troi'n ganlyniadau ystyrlon i'w cyflawni, a fydd yn hyrwyddo lleisiau, dewisiadau, lles ac annibyniaeth pobl.

Rydym yn anelu at ddatblygu model yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn seiliedig ar yr egwyddor o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac sy'n hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol.

Mae hefyd yn gyfle inni gydnabod natur amrywiol ein poblogaeth, ac ymrwmo i fabwysiadu dull sy'n caniatáu i bobl ag anabledd dysgu gael eu trin yn y modd maent yn dymuno, cyhyd ag y bo modd. Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Anableddau Dysgu Ceredigion (y Bwrdd). Bydd y Bwrdd hwn, sydd â rhieni a gofalwyr a gweithwyr allweddol sefydliadau lleol ymhlith ei aelodau, yn gyfrifol am oruchwylio'r modd y cyflenwir y Strategaeth hon, gan sicrhau bod y partneriaid yn cyflawni'r canlyniadau a osodir yn y Cynllun Cyflenwi. Ein nod yw cynyddu aelodaeth y bwrdd hwn i gynnwys pobl ag anableddau dysgu, yn ogystal â'u heiriolwyr.



Y Cyngorydd Catherine Hughes  
Aelod Cabinet dros Wasanaethau  
Cymdeithasol  
Eiriolwr dros Ofalwyr  
Cyngor Sir Ceredigion



Judith Hardisty  
Eiriolwr dros Anableddau Dysgu  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



Y Cyngorydd Alun Williams  
Eiriolwr dros Anableddau Dysgu  
Cyngor Sir Ceredigion

## Ein Sesiynau Ymgysylltu – dysgu beth sy'n bwysig

Er mwyn inni allu edrych ar yr holl gyfleoedd posib ar gyfer trawsnewid gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu, roedd hi'n hanfodol ein bod ni'n deall yn iawn beth sy'n bwysig i'r rhan fwyaf o bobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gweithwyr cymorth, yn ogystal â'r heriau maent yn eu hwynebu yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

Rydym yn cydnabod mai pobl ag anabledd dysgu a gofalwyr yw'r arbenigwyr ar eu profiadau nhw'u hunain, a bod ganddynt farn unigryw, a chreadigol yn aml, ynghylch sut mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi, neu sut y gellid eu cyflenwi mewn ffordd a fyddai'n cael effaith positif ar ansawdd bywyd pobl.

Er mwyn cadw pobl ag anabledd dysgu wrth galon y Strategaeth, dosbarthwyd holiaduron i unigolion, eu gofalwyr a darparwyr gofal, gan sicrhau eu bod yn cael cyhoeddusrwydd eang.

I ymgysylltu â phobl ac ymgynghori ar y strategaeth, cynhelir y digwyddiadau canlynol:

- Digwyddiadau ymgysylltu yn Aberteifi, Aberaeron ac Aberystwyth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, eu rhieni a'u gofalwyr,
- Ymgysylltu mewn canolfannau dydd gyda rhai na all fynychu digwyddiadau ymgysylltu;
- Postio deunydd i ddarparwyr i ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio'u gwasanaethau nad ydym efallai'n ymwybodol ohonynt.

Dyma ddyfyniadau a godwyd yn uniongyrchol o'r holiaduron wedi'u cynnwys ar y tudalennau canlynol. Mae'r holl negeseuon cyffredin a gasglwyd o'r holiaduron wedi siapiao pob maes canlyniad gwahanol yn y strategaeth hon.

### Oddi wrth Ddwyg Anabledd Dysgu

- Gwell Mynediad i Wasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd -

**“Mae'n mynd yn anodd cael mynediad at y Meddyg Teulu am fod ganddynt system apwyntiadau newydd erbyn hyn.”**

- Gwell Cyfathrebu-

**“Mae mam wedi fy helpu i lenwi hwn ac mae wedi gorfod esbonio'r cwestiynau mewn ffordd y GALLAF I ddeall.”**

### Oddi wrth Bobl ag Anabledd Dysgu

- Gwella cyfleoedd Cymdeithasol a Hamdden-

“... mae'n anodd iawn cael mynediad at unrhyw beth. Mae'r holl wasanaethau fel petaent wedi'u cwtdgi trwy'r amser, wedi cael llond bol ar ofyn am help drwy'r adeg – a chael yr ateb bod dim ar gael.”

**“Mae'r penwythnosau'n gymunedol iawn ond does fawr ddim cymorth ar nosweithiau yn yr wythnos.”**

- Gwella cyfleoedd Cyflogaeth a Hyfforddiant -

**“Llwyddo i wneud arian o fy ymdrechion creadigol (arlungio, dylunio graffeg, ysgrifennu)”**

“Mae gen i waith ond byddai angen cymorth arna'i i gyflawni hyn.”

**“Eisiau mwy o waith gyda thâl.”**

- Gwella Trafnidiaeth -

**“Cael mwy o ddefnydd o drafnidiaeth i gyrraedd y gymuned sy'n bellach i ffwrdd.”**

**“Gallu cael mynediad corfforol i'r gymuned – alla' i ddim mynd i rai llefydd oherwydd fy nghadair.”**

- Cefnogi'r unigolyn - **“Gallu siarad efo rhywun os ydw i'n poeni am rywbeth – Gweithiwr allweddol, cynorthwydd personol”**

### Oddi wrth Ofalwyr

- Cael yr un gweithwyr proffesiynol yn darparu gofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu trwy'r adeg.
- Lleihau'r amser mae'n ei gymryd i gynnal adolygiadau, a darparu mwy o wybodaeth am newidiadau o ran gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd.
- Yr angen i gadw gwasanaethau allweddol, megis Canolfannau Cymorth Cymunedol, sy'n darparu seibiant i ofalwyr.
- Datblygu mwy o wasanaethau o fewn y sir fel nad oes angen gwahanu teuluoedd oherwydd prinder gwasanaethau.

### Oddi wrth Ddarparwyr Gwasanaethau

Mae darparwyr gwasanaethau am weithio'n agosach gydag adran gomisiynu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, i gyd-gynllunio a chyd-gynhyrchu gwasanaethau.

- Gwella'r cyfathrebu rhwng Darparwyr Gwasanaethau ag Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Datblygu gwasanaethau pontio i alluogi pobl i fyw bywydau llawnach.
- Datblygu eiriolaeth o fewn Ceredigion fel bod y broses o ail-gynllunio gwasanaethau yn canolbwyntio ar unigolion.

---

## Rhoi'r Strategaeth yn ei Chyd-destun Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol

---

### Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) i rym yn Ebrill 2016. Mae hon yn newid yn sylfaenol y modd y mae gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu cyflenwi yng Nghymru, ac o ganlyniad, mae gofyn bod yna newid sylfaenol i'r modd y mae gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn gweithredu.

Mae'r Ddeddf yn seiliedig ar fframwaith Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a'r egwyddorion canlynol:

- Llais a rheolaeth – sicrhau bod y gofal yn canolbwyntio ar unigolion a'u hanghenion, a rhoi llais iddyn nhw, a rheolaeth dros gael y canlyniadau all helpu i sicrhau eu lles.
- Ataliad ac ymyrraeth gynnar – cynyddu gwasanaethau ataliol o fewn y gymuned i leihau'r angen am ofal parhaus sydd wedi'i reoli.
- Llesiant – cynorthwyo pobl i sicrhau eu lles eu hunain a mesur llwyddiant y gofal a'r cymorth.
- Cyd-gynhyrchu – annog unigolion i gymryd mwy o ran yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i hyrwyddo lles y rhai sydd angen gofal a chymorth. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaethau statudol newydd, sef Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i hyrwyddo integreiddiad, arloesedd a newidiadau i wasanaethau.

Dan y Ddeddf, mae'n ofynnol cynnal asesiad o'r boblogaeth. Mae Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda'n gweithio'n agos â phartneriaid a'r trydydd sector i baratoi asesiad, a fydd yn ein darparu â gwybodaeth am anghenion gofal a chymorth unigol, gan gynnwys gofaluwr yn yr ardal sydd angen cymorth, amrywiaeth a lefel y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd, ac i ba raddau yr ydym yn methu â chwrdd ag anghenion gofal a chymorth rhai o drigolion yr ardal.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi pwyslais pellach ar gynllunio ar gyfer y dyfodol, gweithio ar y cyd ar draws sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus, a gweithio'n agosach ac mewn ffordd well gyda phobl a chymunedau.

Hefyd, yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cyfarwyddyd Ymarfer ar ddatblygu strategaeth gomisiynu ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn cynnwys 7 maes canlyniad allweddol, a amlinellir isod. Mae'r 7 maes canlyniad hyn wedi'u cysylltu â chanlyniadau allweddol y strategaeth hon.



Tua diwedd 2015 a dechrau 2016 cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) adolygiad thematig o wasanaethau iechyd y GIG ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yng Nghymru.



Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys arolwg o bob un o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru; gwaith maes manwl ochr yn ochr ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o fewn chwe thîm iechyd anabledd dysgu cymunedol, o bum bwrdd iechyd gwahanol; arolygiadau o dimau iechyd anabledd dysgu cymunedol y ddau fwrdd iechyd arall; ac arolygiadau o leoliadau preswyl a ddarperir gan y GIG ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, gan gynnwys unedau asesu a thriniaethau.

Roedd yr adroddiad a gynhyrchwyd yn sgil yr adolygiad yn nodi cryfderau cyffredin a meysydd i'w gwella, ac yn gosod argymhellion ar gyfer byrddau iechyd a llunwyr polisiau. Defnyddiwyd canfyddiadau'r adroddiad hwnnw wrth fynd ati i lunio'r strategaeth hon.

Sefydlwyd Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (PGGC) i sicrhau bod holl sefydliadau'r gwasanaethau cyhoeddus ar draws y rhanbarth yn gweithio gyda'i gilydd, i helpu pobl ag anableddau dysgu i sicrhau'r canlyniad sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae PGGC wedi datblygu a chytuno ar 'Ddatganiad o Fwriad ar gyfer Gwasanaethau Anabledd Dysgu'. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu eu hymrwymiad i wella gwasanaethau anabledd dysgu, ac mae'n disgrifio'r dull cydweithredol sydd ei angen i drawsnewid y gwasanaethau yng Ngorllewin Cymru er gwell dros y tair blynedd nesaf. Mae'n gosod dyletswydd statudol ar Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac yn amlinellu sut mae sefydliadau sy'n bartneriaid yn bwriadu ymrwymo i raglen o drawsnewid, gyda chymorth yr holl randdeiliaid.

Mae gan Fwrdd y Rhaglen, a sefydlwyd i arwain y broses o roi argymhellion y Datganiad o Fwriad ar waith, weledigaeth o ran datblygu model gofal integredig ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr ar draws y rhanbarth cyfan.

**“Gyda'n gilydd, a gyda chi, rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo pobl sydd ag anghenion unigol i fyw'r bywyd a ddymunant. Trwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau gofal a chymorth hyblyg, byddwn yn sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu mor annibynnol â phosib ac yn cymryd rhan lawn yn eu cymunedau lleol.”**

Bydd yr uchelgeisiau a osodir yn y Datganiad o Fwriad yn dod yn rhan annatod o'r modd y cyflenwir y model gofal rhanbarthol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.





Mae aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Anableddau Dysgu Ceredigion yn cynnwys rhieni a gofalwyr, a sefydliadau sy'n bartneriaid, (CSC, BIPHDd, Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)). Nod y Bwrdd yw sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn rhan ganolog o'r holl drafodaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau anabledd dysgu. Mae'r Bwrdd yn rhannu gwybodaeth ar raddfa eang ar draws partneriaethau lleol a rhanbarthol allweddol eraill, fel bod barn a lleisiau pobl Ceredigion yn siapio gwasanaethau'r dyfodol.

Yn ogystal, mae yna Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol. Mae'r Bwrdd hwn yn gyfrifol am sicrhau bod yna ddulliau cyd-drefnus a chyson o gomisiynu gwasanaethau ar ran asiantaethau sy'n bartneriaid yng Ngheredigion. Ei nod yw sicrhau ymagwedd gydgyssylltiedig tuag at gynllunio strategol a darparu gwasanaethau, er mwyn gwneud y defnydd gorau posib o adnoddau cyhoeddus, a darparu gwasanaethau di-dor drwy weithio ar draws ffiniau sefydliadol.



Unwaith bod y strategaeth hon wedi'i chymeradwyo, bydd y Bwrdd yn monitro'r modd y'i cyflenwir yn erbyn cynllun gweithredu a osodwyd ar gyfer y strategaeth. Gosodir y berthynas rhwng y Byrddau hyn yn Atodiad 1.

**Proffil Ceredigion - pobl sy'n byw ag anableddau dysgu**




**Beth mae'r data yn ei ddweud wrthon ni?**

- Mae yna oedolion gydag anabledd dysgu na wŷyr y gwasanaethau amdanynt, neu sy'n dewis peidio a defnyddio'r gwasanaethau.
- Ar 31 Mawrth 2018, roedd 194 o bobl ag anabledd dysgu'n cael cymorth gwasanaeth a ddarparwyd a/neu a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Ceredigion.
- O'r rhain, roedd 135 (70%) yn cael cymorth i fyw yn y gymuned, gyda 59 (30%) yn cael cymorth mewn gofal preswyl.
- Y ganran gofal preswyl hon yw'r uchaf yng Nghymru a rhanbarth BIPHDd.
- Erbyn 2035, rhagwelir y bydd 1538 o oedolion 18 oed a throsodd ag anableddau dysgu'n byw yng Ngheredigion.
- Erbyn 2035, rhagwelir y bydd y ganran o bobl 75 oed a throsodd ag anableddau dysgu'n cynyddu 60%.
- Erbyn 2035, rhagwelir y bydd 654 o oedolion 18 oed a throsodd gydag anhwylder ar y sbectrwm awtistig yn byw yng Ngheredigion.

Ceir ffynonellau'r data yn Atodiad 4.

**Proffil Ceredigion - Gwasanaethau presennol sy'n cynorthwyo pobl i fyw bywyd egniol a llawn yn eu cymuned**




**Beth fydd hyn yn ei olygu wrth ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol?**

- Bydd angen inni sicrhau bod yna amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gael i bobl ag anableddau dysgu o bob oed, i ganiatáu iddynt fyw bywyd llawn ac egniol fel aelodau gwerthfawr o’u cymunedau,
- Bydd angen datblygu strategaethau comisiynu amgen sy’n cynyddu gallu cymunedol a chydnerthedd, fel bod gwasanaethau’r dyfodol yn hunangynhaliol, gan gydnabod yr heriau ariannol a wynebir gan y sector cyhoeddus,
- Bydd angen inni weithio gyda phartneriaid a phobl gydag anableddau dysgu i gynllunio a datblygu gwasanaethau cynaliadwy, cydnerth ac arloesol, gan gydnabod y budd o gyd-gynhyrchu,
- Bydd angen inni ddal ati i ganolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau a fydd yn hyrwyddo annibyniaeth lle bynnag y bo modd,
- Mi fydd yna alw cynyddol am wasanaethau arbenigol e.e. Awtistiaeth. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Strategol newydd ar gyfer Anhwylderau’r Sbectwm Awtistig yn 2016. Y bwriad yw datblygu ymateb rhanbarthol i’r Cynllun Gweithredu hwnnw.

Mae Atodiad 2 yn cynnwys nifer o siartiau data manwl am y gwasanaethau a ddefnyddir, a’r wybodaeth ddemograffig ynghylch y defnydd o wasanaethau gan bobl ag anableddau dysgu.

**Canlyniadau allweddol i bobl ag anableddau dysgu**

Rydym wedi defnyddio’r uchelgeisiau cyffredin a osodwyd gan y Grŵp Rhaglen Anableddau Dysgu fel sail ar gyfer prif feysydd canlyniad y strategaeth hon. Yr uchelgeisiau cyffredin hynny yw:



Gwella gwydnwch a galluogrwydd cymunedol drwy sicrhau dewis, hunangyfeirio a rheolaeth dros benderfyniadau sy’n effeithio ar fywydau pobl ag anabledd dysgu, yn unol â’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Gwella ansawdd bywyd trwy wella’r dewis o dai a llety ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, gan sicrhau bod y mwyafrif ohono yr un fath ag ar gyfer pobl eraill yn y gymuned.

Byddai cael mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a phrofiadau bywyd yn gwella lles ac ansawdd bywyd pobl ag anableddau dysgu.

Byddai cael pob cyfle i fod yn annibynnol, i ymarfer a mwynhau eu hawliau a chwrdd â’u hymrwymyiadau unigol, yn gwella ansawdd bywyd pobl ag anableddau dysgu.

**Cylch Cymorth Ceredigion ar gyfer Anabledd Dysgu**



Rydym wedi mapio'r adborth a gasglwyd gennym, a'r straeon a glywsom yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu yn erbyn y 4 maes canlyniad hyn, ac o ganlyniad rydym wedi datblygu fframwaith a'i alw'n Gylch Cymorth ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu.

Mae pob rhan o'r cylch yn nodi agwedd allweddol o fywyd bob dydd a fyddai, pe na bai ar gael, yn cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd pobl gydag anabledd dysgu.

Gwnaethpwyd pob rhan wahanol o'r Cylch Cymorth yn faes canlyniad allweddol.

## Maes canlyniad allweddol 1:

**Gwella gwydnwch a galluogrwydd cymunedol drwy sicrhau dewis, hunangyfeirio a rheolaeth dros benderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau pobl ag anabledd dysgu, yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.**

### 1: Gwasanaethau Allgymorth / Atebion Creadigol

Mae Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o asiantaethau a sefydliadau i ddarparu ystod eang o wasanaethau. Mae'r gwasanaethau hyn, sy'n cynnwys seibiant, gofal dydd, cymorth i fyw'n annibynnol, gofal preswyl, y defnydd o larymau cymunedol a Thaliadau Uniongyrchol, yn cynorthwyo pobl ag anabledd dysgu i wneud y mwyaf o'u potensial ac yn hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol.

Er bod amrywiaeth eang o wasanaethau ar gael ar gyfer pobl ag anabledd dysgu yng Ngheredigion, nodwyd mewn ymateb i'r holiadur bod cael mynediad i'r amrywiaeth ehangach o weithgareddau cymunedol sydd ar gael y tu allan i'r oriau 9am i 5pm ac ar benwythnosau – yn enwedig ar ddydd Sul – yn anhawster allweddol i bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr.

**“... mae'n anodd iawn cael mynediad at unrhyw beth.”**

**“... dwi wedi cael llond bol ar ofyn am help trwy'r amser – a chael yr ateb bod dim ar gael.”**

**“Mae'r penwythnosau'n gymunedol iawn ond does fawr ddim cymorth ar nosweithiau yn yr wythnos.”**

Dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i ddarparu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, a hynny yn newis iaith y defnyddiwr. Bydd hyn yn gwneud hi'n haws i bawb gael gwybodaeth a chynghor cyfredol a chilir am yr holl wasanaethau sydd ar gael yn eu hardal. Bydd hyn yn helpu pobl i wneud penderfyniadau am y cymorth sydd ei angen arnynt i fyw bywyd fel y dymunant.

Dywedodd pobl wrthym eu bod yn gwerthfawrogi Canolfannau Cymorth Cymunedol, ond eu bod am gael mynediad at gyfleoedd gwaith a mathau eraill o wasanaethau a gweithgareddau. Cyfleoedd cyfyngedig sydd ar gael yn eu cymunedau, a'r nod yw cryfhau'r cysylltiadau cymunedol.

Rydym yn bwriadu ehangu'r broses ymgysylltu i gynnwys cymunedau, busnesau, cynghorau tref a chymuned a'r sector gwirfoddol, i ystyried sut y gellir gwella'r amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer pobl ag anabledd dysgu yng Ngheredigion.

### Ein hargymhellion:

- Dod o hyd i bobl ag anableddau dysgu sy'n fodlon bod yn eiriolwyr yn eu cymunedau, gan helpu i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anableddau dysgu.
- Datblygu a darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd dysgu priodol o fewn cymunedau, mewn partneriaeth â phobl ag anableddau dysgu a'u gweithwyr cymorth.

- Cynnal ymarfer ymgysylltu â chymunedau i nodi cyfleoedd posib i bobl ag anableddau dysgu i gymryd mwy o ran yn y gymuned.
- Datblygu cysylltiadau rhwng gwasanaethau anabledd dysgu â Chysylltwyr Cymunedol Porth y Gymuned, i annog datblygiad cyfleoedd cymunedol amgen.
- Archwilio cyfleoedd gwahanol i'r rhai sydd ar gael yn ystod y dydd, yn enwedig fin nos ac ar benwythnosau.

## 2. Cyfathrebu a Gwybodaeth

Mae cyfathrebu'n hollbwysig i sicrhau bod pobl yn gallu mynegi'u hunain a gwneud synnwyr o'r byd o'u hamgylch. Mae'n hanfodol bod dulliau cyfathrebu ar gael i bobl ag anableddau dysgu, i'w galluogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain a dewisiadau gwybodus am y modd maent am wireddu eu hamcanion. Mae pwysigrwydd gwybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd da wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Dywedwyd wrthym fod yn well gan y mwyafrif o bobl ag anableddau dysgu bod eu gweithwyr cymorth a'r gwasanaethau'n defnyddio'r dull Arwyddo Syml ('Simple Signing') a Hawdd ei Ddarllen ('Easy-Read'). Roedd yr adborth hefyd yn cadarnhau bod yna angen clir i wella'r cyfathrebu rhwng adrannau o fewn gwasanaethau statudol, darparwyr gwasanaethau, a phobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Roedd yna bryder bod partneriaid statudol ar hyn o bryd yn dibynnu gormod ar ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth (TG) fel dull o gyfathrebu, ac nad hwnnw oedd y dull mwyaf effeithiol o gyfathrebu ag unigolion bob tro.

### **Beth ddywedodd pobl wrthon ni:**

Gofynnwch gwestiynau mewn ffyrdd y gallaf eu deall

Dwedwch wrthon ni pam eich bod chi'n gwneud pethau

Gofynnwch bethau sy'n bwysig i mi

Defnyddiwch symbolau Hawdd ei Ddarllen sy'n gyfarwydd i ni

### **Ein hargymhellion:**

- Bydd y dull Hawdd ei Ddarllen o gynhyrchu gwybodaeth hawdd ei darllen yn dod yn rhan o safonau cyfathrebu Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer pob cyfarwyddiaeth.
- Dylid darparu hyfforddiant Arwyddo Syml a Hawdd ei Ddarllen ar gyfer staff perthnasol a phobl ag anabledd dysgu. Dylai pobl ag anabledd dysgu gymryd rhan yn yr hyfforddiant a ddarperir i staff.



- Dylai sefydliadau ystyried y bobl maent am gyfathrebu â nhw, a defnyddio'r ffordd fwyaf priodol o rannu gwybodaeth. Dylid gwneud defnydd o ffonau, llythyron, e-byst ac ati.
- Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau bod ganddynt weithdrefnau cwyno hygyrch. Rhaid iddynt annog defnyddwyr gwasanaethau i drafod a rhoi gwybod am broblemau.
- Adeiladu cysylltiadau cryfach a chyfathrebu dwyffordd rhwng y Bwrdd Partneriaeth Anabledd Dysgu â'i randdeiliaid, gan gynnwys pobl ag anabledd dysgu, eu teuluoedd ac aelodau staff.

### 3. Lleisiau, Dewisiadau ac Eiriolaeth

Mae eiriolaeth yn golygu bod pobl yn cael cymorth gan rywun arall i helpu i fynegi'u barn a'u dymuniadau, a gwneud yn siŵr bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Mae cael llais a dewis yn rhoi grym i bobl i wneud penderfyniadau am eu hopsiynau cymorth. Byddwn yn sicrhau bod y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael wedi'i deilwra i gwrdd ag anghenion pob unigolyn, a byddwn yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r holl gymorth sydd ar gael gan sefydliadau sy'n bartneriaid a chymunedau.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn comisiynu gwasanaethau eiriolaeth fel bod pobl ag anabledd dysgu'n cael cymorth gan eiriolwyr annibynnol.

Ond, wrth roi adborth i'r holiaduron, dywedodd pobl ag anabledd dysgu, eu gofalwyr a'u darparwyr gofal y canlynol wrthym:

**“Mae yna angen DIRFAWR am wasanaethau eiriolaeth annibynnol yng Ngheredigion.”**

**“Nid oes unrhyw wasanaeth Eiriolaeth wedi bodoli i bob pwrpas dros y blynyddoedd diwethaf.”**

Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon i wneud yr argymhellion canlynol.

#### Ein hargymhellion:

- Sicrhau bod gwasanaethau Eiriolaeth ar gael ar gyfer pobl ag anabledd dysgu a chefnogi eu defnydd mewn modd cadarnhaol o fewn cynllunio gofal a chymorth.
- Bydd pobl ag anabledd dysgu a'u gofalwyr yn cymryd rhan lawn yn y broses o gynllunio, adolygu a diwygio pecynnau cymorth.
- Bydd pobl ag anabledd dysgu a'u gofalwyr yn cael cymorth i dderbyn, defnyddio a deall gwybodaeth briodol am yr ystod o wasanaethau sydd ar gael, a dylai'r gwasanaethau hynny fod ar gael i'r un graddau i bawb sydd ag anabledd dysgu.
- Pan fyddant yn bresennol yn ystod sgysiau a thrafodaethau am eu gofal a'u lles, dylid siarad yn uniongyrchol â phobl ag anableddau dysgu. Gosodir gwerth ar unigoliaeth, llais a dewis bob un.

## Maes canlyniad allweddol 2:

**Gwella ansawdd bywyd trwy wella'r dewis o dai a llety ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, gan sicrhau bod y mwyafrif ohono yr un fath ag ar gyfer pobl eraill yn y gymuned.**

### 4. Tai

Dylid cael dewis eang o lety o ansawdd da ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, gan gynnwys byw â chymorth, llety preswyl, rhentu preifat, lleoli oedolion, cysylltu bywydau, a byw gyda theulu. Lle bynnag y bo modd, dylai unigolion allu dewis ble maent yn byw, a gyda phwy maent yn byw.

**“Dwi hoffi byw ar ben fy hun, dwi'n hapus ar ben fy hun.”**

**“Ar yr adeg iawn, mewn tŷ gydag eraill, pan fydd y teulu ddim efo fi bellach i helpu”.**

Yn ystod y sesiynau ymgysylltu cynnar, daeth hi'n amlwg bod cael dewis eang o lety'n flaenoriaeth bwysig i bobl ag anabledd dysgu. Ar hyn o bryd mae Ceredigion yn cynnig nifer o opsiynau llety gwahanol, gan gynnwys prosiectau preswyl a byw â chymorth.

#### Ein hargymhellion:

- Darparu gwybodaeth a chymorth ar opsiynau tai er mwyn i unigolion allu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch byw'n annibynnol.
- Rhoi cefnogaeth gadarnhaol i unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr i ystyried anghenion tai yn y dyfodol.
- Archwilio sut y gall cynlluniau tai yn y dyfodol gynnwys amrywiaeth o opsiynau llety sy'n addas i bobl ag anabledd dysgu.
- Bydd pobl ag anabledd dysgu'n cymryd rhan lawn ym mhob agwedd o gynllunio gofal.
- Dylai pobl ag anabledd dysgu gael dewis ble maen nhw'n byw, a gyda phwy maen nhw'n byw lle bynnag y bo hynny'n bosib.
- Rhaid i bartneriaid weithio gyda'i gilydd i lunio datganiad safle yn y farchnad ar gyfer llety â chymorth a chyfleoedd tai, nodi bylchau'n seiliedig ar yr angen, nawr ac yn y dyfodol, a datblygu cynllun tai strategol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.
- Gwella ansawdd bywyd trwy gynyddu a gwella'r dewis o dai a llety ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.

## Maes canlyniad allweddol 3:

**Byddai cael mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a phrofiadau bywyd yn gwella lles ac ansawdd bywyd pobl ag anableddau dysgu.**

### 5. Cymorth Gofal Cymdeithasol

Rydym yn cydnabod y bydd angen cymorth y Gwasanaethau Cymdeithasol ar rai pobl ag anabledd dysgu ar ryw adeg yn ystod eu bywydau. Dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant cyflwynwyd proses asesu newydd, ac mae honno'n seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn ei hun. Bydd yr asesiad yn ystyried cryfderau'r unigolyn a'r cymorth sydd ar gael i'r unigolyn hwnnw, ei deulu, ac eraill yn gymuned.

Mae staff Gofal Cymdeithasol yn cynorthwyo pobl ag anabledd dysgu yn ystod yr asesiad a'r broses o ddatblygu cynllun gofal. Mae gan Gyngor Sir Ceredigion gyfrifoldeb, ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed dan ei ofal, o fewn diwylliant sy'n rhoi'r flaenoriaeth bennaf i ddiogelu. Rydym yn cydnabod ei bod hi'n hanfodol bod asiantaethau'n cydweithio'n effeithiol ac yn rhannu'r cyfrifoldeb hwn, gan sicrhau lles pobl ag anableddau dysgu, y darparwyr, a'r unigolyn sy'n eu cefnogi o ddydd i ddydd.

Yn ôl yr adborth a gafwyd mewn digwyddiadau ymgysylltu, roedd yna nifer o feysydd oedd yn bwysig i bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd, gan gynnwys:

- Yr angen i gael yr un staff proffesiynol trwy gydol y prosesau asesu ac adolygu

**“Bu oedi mawr yn ein hadolygiad blynyddol oherwydd prinder staff. Cafodd ein hadolygiad ei gynnal gan fyfyrwr gwaith cymdeithasol oedd yn gadael y diwrnod canlynol.”**

- Adolygu'r cynllun gofal yn rheolaidd

**“Adolygiad blynyddol y gofalwr a'r person anabl 9 mis yn hwyr.”**

- Asiantaethau sy'n bartneriaid yn cydweithio i gwrdd ag anghenion pobl ag anabledd dysgu drwy gynllunio, datblygu, cyflenwi a gwerthuso gwasanaethau'n briodol.

### Ein hargymhellion

- Sicrhau bod pob cynllun gofal a chymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn egluro ble mae'r unigolyn ar hyn o bryd, beth yw ei anghenion gofal a chymorth, a ble mae'n dymuno bod.
- Rhaid adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn flynyddol.
- Rhaid cynnwys yr unigolyn ag anabledd dysgu a'i deulu wrth lunio cynlluniau gofal a chymorth.
- Gweithio gyda phobl sydd ag anabledd dysgu i greu opsiynau hyblyg ar gyfer gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a gwasanaethau sy'n hyrwyddo annibyniaeth.

- Gweithio gyda darparwyr gwasanaethau a phobl ag anabledd dysgu i ddatblygu dealltwriaeth lawnach o'r angen, y gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd, a dulliau mwy effeithiol o gomisiynu gwasanaethau sy'n hyrwyddo annibyniaeth.

## 6. Gofal Iechyd Cyffredinol a Thriniaethau

Mae yna nifer allweddol o heriau'n wynebu'r gwasanaethau anabledd dysgu, gan gynnwys:

- Mae nifer y bobl ag anabledd dysgu'n cynyddu,
- Mae nifer y bobl ag anableddau dysgu difrifol ac anghenion iechyd Cymhleth yn cynyddu,
- Mae pobl ag anabledd dysgu'n byw'n hirach ac yn dioddef o gyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran megis Dementia.
- Mae angen darparu mwy gyda llai o arian.

Mae ein gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu'n canolbwyntio ar fodel cynnydd sy'n anelu at wella gwydnwch cymunedol a galluogrwydd drwy sicrhau dewis, hunangyfeirio, a rhoi rheolaeth i bobl dros eu bywydau'u hunain, gan symud i ffwrdd o'r gwasanaethau traddodiadol megis ysbytai a gwasanaethau gofal preswyl.

Nid yw iechyd y rhan fwyaf o bobl ag anabledd dysgu cystal ag iechyd gweddill y boblogaeth. Mae gofyn bod pob unigolyn yn cael mynediad at yr ystod lawn o fentrau a gwasanaethau hyrwyddo iechyd, ataliad ac addysg, a ddarperir gan gontractwyr annibynnol (e.e. Deintyddion, Meddygon Teulu, Optometryddion) a gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd eraill (e.e. ysbytai, gwasanaethau iechyd meddwl) er mwyn cwrdd â'i anghenion corfforol a'i anghenion iechyd ehangach.

I gwrdd ag anghenion pobl ag anghenion dysgu, bydd angen i wasanaethau fod yn hyblyg o ran eu dulliau a'u hymyriadau. Cydnabyddir bod pobl ag anabledd dysgu'n cael mynediad at wasanaethau cymunedol a gofal sylfaenol prif ffrwd, gyda'r rhan fwyaf o'r gweithgaredd yn digwydd ar yr haenau uchaf. Mae yna, fodd bynnag, ddealltwriaeth bod angen i bartneriaid ganolbwyntio ar wasanaethau ataliol, gan gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau haen 1 yn unol â'r weledigaeth a osodir gan Lywodraeth Cymru yn 'Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned – Rhaglen Strategol ar gyfer Cyflenwi' a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Fel rhan o'r holiadur, gofynnwyd i bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr beth oedd yn bwysig iddyn nhw, a lefel y gwasanaeth roedden nhw'n gallu'i dderbyn. Nodwyd y materion canlynol fel rhai allweddol bwysig i bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr:

- Gallu cael gwiriad iechyd blynyddol.
- Goresgyn rhwystrau technoleg gyfrifiadurol a'r defnydd o systemau wedi'u hawtomeiddio ar gyfer apwyntiadau.

- Roedd gofalwyr yn teimlo bod angen iddyn nhw fod yn bresennol i helpu'r bobl maen nhw'n eu cynorthwyo i gyfathrebu'n effeithiol gyda staff ar wardiau.
- Derbyn gwybodaeth ar ffurf hawdd ei darllen, mae angen mwy na symbolau i allu deall.
- Pryderon am yr oedi cyn cael gwasanaethau therapi yng Ngheredigion.
- Llefydd Deintydd yn cau ac ychydig iawn o ddewis arall ar gael.

Rydym wedi cynnwys adborth mwy manwl i'r holiaduron yn Atodiad 3.

Sefydlwyd Grŵp Rhaglen Anableddau Dysgu Rhanbarthol, i ddod â phrif ddarparwyr y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol at ei gilydd, i sbarduno proses o ail-gynllunio ac ail-fodelu Gwasanaethau Anabledd Dysgu ar draws y rhanbarth. Bydd y Grŵp hwn yn gweithio i gyflenwi'r Flaenoriaeth Strategol a amlinellir yn y 'Datganiad o Fwriad':

**Gwella gwydnwch cymunedol a galluogrwydd drwy sicrhau dewis, hunangyfeirio, a rheolaeth dros benderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau pobl ag anabledd dysgu, yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.**

- Model gofal a chymorth diffiniedig (llwybrau gofal) yn seiliedig ar egwyddorion y model cynnydd.
- Lleihau nifer y plant ac oedolion ifanc sy'n mynd i ofal preswyl.
- Lleihau anghyfartaleddau iechyd ar draws continwrm gofal (o gael mynediad at wasanaethau iechyd prif ffrwd, i ofal arbenigol, ac atal argyfyngau ac afiechyd).

**Comisiynu gwasanaethau sy'n gwella ansawdd a gwerth am arian ar draws yr ystod lawn o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.**

- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd sy'n deillio o gydweithio rhanbarthol, partneriaethau a dulliau integredig, i gyflenwi gwasanaethau cost-effeithiol o safon uchel.
- Casglu data rhanbarthol a'i ddefnyddio i wneud penderfyniadau cynllunio a chomisiynu yn y dyfodol.

**Lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy gynyddu nifer y bobl ag anableddau dysgu sy'n derbyn gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles cyffredinol.**

- Fframwaith rhanbarthol yn cyflenwi gwasanaethau sy'n darparu gofal wedi'i deilwra ar gyfer unigolion ac sy'n adlewyrchu anghenion lleol.

- Lleihau anghydraddoldebau iechyd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ar draws continwrm gofal (o gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol prif ffrwd, i ofal arbenigol, ac atal argyfyngau ac afiechyd).
- Cynyddu gwydnwch a gallu cymunedol ar draws ystod o wasanaethau sy'n cynorthwyo pobl ag anabledd dysgu.
- Gwella'r dewis o dai a llety lleol er mwyn i bobl ag anabledd dysgu allu byw mor annibynnol â phosib, mewn lle o'u dewis nhw, hyd y bo modd.

**Ein hargymhellion** (Mewn partneriaeth â gofal sylfaenol):

- Cynyddu nifer ac ansawdd Asesiadau Iechyd Blynyddol,
- Gwella mynediad i apwyntiadau Meddyg Teulu,
- Datblygu ac annog y defnydd o Basbort Iechyd i helpu staff iechyd i ddeall anghenion y rhai maent yn darparu gofal ar eu cyfer,
- Y gwasanaethau statudol i weithredu fframwaith contractau a sicrwydd ansawdd cadarn ar gyfer yr holl wasanaethau mewnol a gwasanaethau a gomisiynir, i sicrhau canlyniadau effeithiol a mesuradwy, a fydd yn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ag anableddau dysgu'n cwrdd â'r safonau a gytunwyd ac a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny.
- Bydd unigolion a'u gofalwyr yn cael cymorth i dderbyn, defnyddio a deall gwybodaeth briodol am yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael, a sut i gael mynediad atynt. (Bydd hyn yn cynnwys taflenni gwybodaeth, lythyrau canlyniadau, a gohebiaeth gyffredinol).
- Bydd pobl ag anabledd dysgu'n cymryd rhan ganolog mewn unrhyw drafodaethau wrth gynllunio'u gofal a'u lles,
- Datblygu canllawiau drafft i gynorthwyo staff i helpu pobl ag anabledd dysgu i gael perthnasoedd personol a chymdeithasol diogel, gan gynnwys defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a chyfarwyddyd 'Hawdd ei Ddarllen' ar ryw a pherthnasoedd personol,
- Canolbwyntio'n gyffredinol ar hyfforddiant, cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth ar draws yr holl leoliadau Gofal Iechyd. Bydd hwn yn ddull aml-asiantaeth, a datblygir nyrsys hwyluso Iechyd pobl ag anableddau dysgu i gynorthwyo gyda'r gwaith,
- Adolygu'r llwybr gofal ar gyfer pobl ag anabledd dysgu sydd angen gofal a chymorth lliniarol a gofal diwedd oes.

## 7. Pontio a Chymorth Teuluol

Mae yna gyfnodau pontio allweddol ym mywyd pob un ac mae'r hyn sy'n digwydd ar yr adegau hynny'n cael effaith sylweddol ar y ffordd mae pobl yn gallu byw eu bywydau, ar y pryd ac yn y dyfodol. Y cyfnod pontio a nodwyd fel yr un sy'n cael yr effaith fwyaf ar bobl ag anabledd dysgu, yw'r adeg pan maent yn symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Gall hyn gynnwys gadael yr ysgol a gwneud trefniadau i fynyachu coleg, neu gwrdd â chyflogwyr lleol i drafod cyfleoedd gwaith.

Nodwyd nifer o ffactorau amrywiol sy'n cael effaith ar oedolyn ifanc a'r ffordd mae'n symud ymlaen, y gwasanaethau mae'n eu derbyn, ac i ba raddau mae'n llwyddo i fyw'n annibynnol.

Dylai fod llwybr clir ar gael i sicrhau bod pob unigolyn yn cael cyfnod pontio rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion sydd wedi'i gynllunio a'i gydlynw'n dda. Gall y cyfnod pontio fod yn un anodd i bobl ifanc, yn enwedig pan fyddan nhw'n gorfod dibynnu ar eu teuluoedd, a cheisio bod yn annibynnol ar yr un pryd.

Gall y dewisiadau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu gael eu cyfyngu pan fydd angen iddyn nhw ddelio â systemau cymhleth a osodwyd i'w cynorthwyo. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod nad yw'r cynlluniau pontio bob amser wedi bod yn effeithiol, gan adael unigolion mewn sefyllfaoedd anodd.

Rydym wedi ymrwymo i wella profiadau pontio pobl ifanc, a gweithio gydag unigolion a'u teuluoedd i nodi'r ystod o gyfleoedd, cymorth ac adnoddau sydd ar gael yn lleol.

### Ein hargymhellion:

- Bydd y cynlluniau pontio'n dechrau pan fydd plant/pobl ifanc ag anableddau dysgu'n cyrraedd 14 oed,
- Bydd pobl ifanc ag anableddau dysgu a'u teuluoedd yn cymryd rhan yn y broses o nodi a chynllunio'r cymorth fydd ei angen arnynt wrth iddyn nhw ddod yn oedolion,
- Bydd pobl ifanc ag anabledd dysgu'n cael cymorth i wneud penderfyniadau ynghylch addysg, hyfforddiant a dysgu,
- Bydd pobl ifanc ag anabledd dysgu'n cael cymorth i ddatblygu sgiliau personol a sgiliau cymdeithasol hanfodol,
- Bydd pobl ifanc ag anableddau dysgu'n cael mynediad i ystod lawn o weithgareddau cymdeithasol, hamdden, chwaraeon a diwylliant.



## 8. Cymorth i Ofalwyr

Mae teuluoedd a gofalwyr yn chwarae rôl hanfodol o ran cynorthwyo pobl ag anableddau dysgu, a rhaid inni weithio i sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth briodol, asesiad gofalwr, ac ystod hyblyg a chreadigol o opsiynau a fydd yn cwrdd â'u hanghenion cymorth. Dylai gofalwyr hefyd gael cyfleoedd i dderbyn hyfforddiant a chymorth priodol.

Rhaid i'r Cymorth i Ofalwyr fod yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth.

Mae rhieni a gofalwyr wedi dweud wrthon ni eu bod wedi sefydlu rhwydweithiau cymorth cyfoedion er mwyn gallu rhannu gwybodaeth a phrofiadau, a chynorthwyo'i gilydd pan fo angen.

Gall rôl gofalwr llawn amser fod yn un lafurus. Mae gofal seibiant yn rhoi cyfle i ofalwyr gymryd gwyliau neu dreulio ychydig o amser yn bodloni'u hanghenion eu hunain, gan wybod bod eu hanwyliaid yn cael y gofal gorau posib. Yn ystod 2017 /2018 darparwyd 784 o nosweithiau o ofal seibiant ar gyfer 24 o bobl ag anabledd dysgu. Yn ogystal, rydym yn darparu seibiant i ofalwyr trwy ystod o wasanaethau, gan gynnwys Taliadau Uniongyrchol.

Yn dilyn asesiad, cynigir gofal seibiant i bobl ag anableddau dysgu, eu rhieni a'u gofalwyr teuluol, am hyd at 6 wythnos y flwyddyn mewn lleoliad priodol. Gellir hefyd trefnu gofal seibiant gan ddefnyddio Taliad Uniongyrchol.

### Ein hargymhellion:

- Cynorthwyo rhieni a gofalwyr teuluol i ddatblygu eu rhwydweithiau cymorth cyfoedion eu hunain, sy'n cynnwys gofalwyr (oedolion) o bob oed,
- Cynorthwyo rhieni a gofalwyr teuluol i ganfod a chael mynediad at adnoddau er mwyn galluogi gofalwyr i barhau gyda'u rôl gofalu,
- Sicrhau bod darpariaeth gofal seibiant briodol ar gael i bobl ag anableddau dysgu yn ystod cyfnodau pontio.

## Maes canlyniad allweddol 4:

**Byddai cael pob cyfle i fod yn annibynnol, i ymarfer a mwynhau eu hawliau, a chwrdd â'u hymrwymadau unigol, yn gwella ansawdd bywyd pobl ag anableddau dysgu.**

### 9. Gweithgareddau Cymdeithasol a Hamdden

Mae cael amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol a hamdden yn hynod bwysig er mwyn i unigolyn allu gwneud y mwyaf o'i botensial, ac i'w alluogi i ddatblygu sgiliau academaidd, a sgiliau gwaith a bywyd newydd. Hefyd, mae cyfleoedd ystyrion yn helpu'r unigolyn i ddatblygu cyfeillgarwch a pherthynas ag eraill, i gynyddu'i hunan-barch, a gwneud cyfraniad gwerthfawr i gymdeithas.

Mae bod yn weithgar a chymryd rhan yn y gymuned hefyd yn cael effaith bositif ar iechyd a lles yr unigolyn. Yn ôl yr ymatebion i'r holiaduron, mae gweithgareddau hamdden a chymdeithasol yn chwarae rôl hanfodol ym mywydau pobl ag anabledd dysgu. Ystyrir ymarfer a/neu gymryd rhan mewn chwaraeon fel ffordd wych o gadw'n iach a heini. Mae hefyd yn darparu amgylchedd hwyliog ac yn cryfhau sgiliau cymdeithasol yr unigolyn.

Dywedodd pobl wrthym y bydden nhw wir yn gwerthfawrogi cael mynediad at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd cymdeithasol. Mae angen i'r gweithgareddau hyn fod ar gael mewn nifer o leoliadau ar draws y sir, y tu allan i'r oriau 9am i 5pm traddodiadol, ac ar benwythnosau.

Dywedodd pobl wrthym:

- **Byddai pobl ag anabledd dysgu'n gwerthfawrogi'r cyfle i allu mynychu amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol yn y gymuned, er mwyn datblygu eu perthnasoedd a'u rhwydweithiau cymdeithasol ymhellach.**

#### Ein hargymhellion:

- Mapio'r cyfleoedd cymdeithasol a hamdden presennol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu er mwyn llunio datganiad safle yn y farchnad, a fydd yn sail i gynllun datblygu,
- Parhau i ddatblygu cysylltiadau a chyfleoedd rhwng Gwasanaethau Hamdden a darparwyr gwasanaethau anabledd dysgu,
- Hyrwyddo ac annog arloesedd cymunedol i ddatblygu mentrau cymunedol a mwy o gyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu trwy Porth y Gymuned.

### 10. Addysg, Hyfforddiant, Cyflogaeth a Gwirfoddoli

Mae'r ffordd mae pobl yn treulio'u hamser yn ystod y dydd yn hynod bwysig, a bydd cyfleoedd priodol yn gwneud y mwyaf o botensial unigolyn, ac yn ei alluogi i ddatblygu sgiliau academaidd, a sgiliau gwaith a bywyd newydd. Hefyd, mae cyfleoedd ystyrion yn helpu'r unigolyn i ddatblygu perthynas ag eraill, i gynyddu'i hunan-barch, a gwneud cyfraniad gwerthfawr i gymdeithas.

Mae gofyn bod ystod o opsiynau ar gael i unigolion ddewis ohonynt, gan gynnwys cyflogaeth, addysg, hamdden a gwasanaethau dydd.

Mae Ceredigion yn cynnig cyfleoedd i bobl ddatblygu sgiliau a chael profiad gwaith. Darperir nifer o'r rhain gan sefydliadau'r trydydd sector neu fusnesau preifat.

Mae Gweithfyrdd+ yn cynnig hyfforddiant a chyfleoedd profiad gwaith gyda thâl i bobl ifanc sydd wedi bod yn ddi-waith dros y tymor hir. Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Ceredigion yn chwilio am bartneriaid i ddatblygu rhaglen leol er mwyn cynnig mentora a chymorth un i un; hyfforddiant; profiad gwaith; cyfleoedd gwirfoddoli; cyfleoedd cyflogaeth gyda thâl, a chysylltiadau â chyflogwyr.

### **Ein hargymhellion:**

- Gweithio â phartneriaid i gynorthwyo pobl ag anableddau dysgu i gael mynediad at, a chymryd rhan mewn amryw o gyfleoedd gwirfoddoli gwahanol,
- Gweithio â phartneriaid i ddod o hyd i bobl ag anableddau dysgu i hyrwyddo'r maes canlyniad hwn, gan weithio gyda nifer o sefydliadau gwahanol i greu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli, a fydd yn arwain at gyflogaeth ystyrlon,
- Gweithio â phartneriaid i gynorthwyo pobl ag anableddau dysgu i gael mynediad at, a chymryd rhan mewn cyfleoedd cyflogaeth gyda thâl,
- Penodi gweithiwr cymorth dynodedig i ddarparu cyngor gyrfaol a chyflogaeth,
- Datblygu Clybiau Swyddi ar draws y sir ar gyfer pobl ag anabledd dysgu,
- Sicrhau bod mwy o gyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu i gael profiad gwaith ar draws y sir, yn y sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol.

## **11. Trafnidiaeth**

Mae trafndiaeth yn parhau i fod yn her i nifer o bobl sy'n byw yma.

Yn yr holiaduron, ni ddaeth trafndiaeth i'r amlwg fel rhywbeth oedd yn broblem arbennig i bobl ag anableddau dysgu. Mae hyn am eu bod yn aml yn cael eu gyrru i lefydd gan eu rhieni, eu gofalwyr, rhwydweithiau cymorth neu ddarparwyr gofal. Fodd bynnag, roedd eraill yn cydnabod bod cael mynediad at nifer o opsiynau trafndiaeth gwahanol yn allweddol er mwyn sicrhau a hyrwyddo annibyniaeth.

Er bod yna nifer o opsiynau trafndiaeth ar gael, mae yna fylchau o hyd sy'n cyfyngu ar y mynediad at weithgareddau a chyfleoedd cymdeithasol a chyfleoedd gwaith, yn ystod y dydd a min nos, yn enwedig i'r bobl hynny sy'n byw yn ardaloedd anghysbell y Sir.

**Ein hargymhellion:**

- Datblygu a chynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd dysgu, yn cael ei arwain gan bobl ag anableddau dysgu, ar gyfer sefydliadau trafndiaeth gyhoeddus,
- Gweithio gyda darparwyr trafndiaeth i daclo'r rhwystrau a wynebir gan bobl wrth ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus,
- Gweithio gyda darparwyr trafndiaeth i gynyddu nifer y bysiau sydd â system sain yn rhoi gwybodaeth i deithwyr am yr safle bus neu'r gyrchfan nesaf.

**12. Taliadau Uniongyrchol**

Mae Taliadau Uniongyrchol yn symiau o arian parod a roir i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r taliadau hyn yn hyrwyddo annibyniaeth pobl ac yn cynnig mwy o ddewis, rheolaeth a hyblygrwydd o ran y modd maent yn derbyn gwasanaethau, er mwyn cwrdd â'u hanghenion asesedig.

Gall y cymorth gael ei drefnu gan yr unigolyn ei hun, neu gan aelodau o deulu'r unigolyn, eiriolwyr, broceriaid neu ddarparwr gwasanaeth ar ei ran. Yn dilyn asesiad, dylid cynnig taliad uniongyrchol i unigolion fel ffordd amgen o gwrdd â'r anghenion cymorth a gytunwyd ar eu cyfer.

I dderbyn taliadau uniongyrchol rhaid i'r asesiad bennu eich bod:

- Angen, neu eisoes yn derbyn cymorth oddi wrth gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, a'ch bod
- Yn gallu 'rheoli' taliad uniongyrchol, un ai ar eich pen eich hun neu gyda chymorth teulu, ffrindiau, eiriolwyr, broceriaid neu ddarparwr gwasanaeth ar eich rhan.

**Ein hargymhellion:**

- Bydd staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant taliadau uniongyrchol, fel eu bod yn ymwybodol o'r drefn, i sicrhau bod partneriaid yn gallu hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol.
- Bydd staff sy'n cynnal asesiadau ac adolygiadau'n derbyn hyfforddiant taliadau uniongyrchol mwy manwl.

## **Sut fyddwn ni rhoi'r strategaeth hon ar waith?**

Lluniwyd y Strategaeth hon yn ysbryd ymrwymiad Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i weithio mewn partneriaeth a'r holl randdeiliaid i roi'r cynllun gweithredu ar waith. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu ymrwymiad Ceredigion gyfan i gynorthwyo pobl ag anableddau dysgu, ac mae'n ymgorffori gwasanaethau a gweithgareddau a ddarperir ac a gyflenwir gan sefydliadau sy'n bartneriaid, gan gynnwys y sector gwirfoddol, grwpiau cymunedol a busnesau preifat.

Er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn diwallu anghenion pobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd, gofalwyr, cymunedau, a gwasanaethau sy'n eu cynorthwyo, gall fod angen casglu gwybodaeth bellach dros amser, i asesu a yw'r strategaeth wedi cael effaith bositif ar fywyd pobl, a ph'un yw amcanion y strategaeth wedi'u cyflawni ai peidio.

Bydd yr wybodaeth a gesglir yn ddiennw, ac ni fydd modd adnabod unrhyw un trwy gydol y broses. Defnyddir yr wybodaeth a gesglir fel sail ar gyfer mesur perfformiad y strategaeth yn unig. Ni chesglir unrhyw wybodaeth nad yw'n berthnasol.

Rydym yn cydnabod y bydd pwysau cyllidebol yn her allweddol yn ystod oes y Strategaeth. Mae'r pwysau hyn yn golygu ei bod hi'n bwysicach fyth bod gan Bartneriaethau Ceredigion gynllun strategol clir. Gall fod angen gwneud penderfyniadau heriol wrth inni geisio gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael, gan ad-drefnu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion a gwella lles cenedlaethau'r dyfodol.


Mae Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda'n buddsoddi arian er mwyn comisiynu a darparu gwasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu, gan gynnwys pobl ifanc yn ystod cyfnodau pontio, a'u gofalwyr. Bydd yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn rhoi'r strategaeth hon ar waith yn dod yn sgil ailgyfeirio adnoddau presennol, wrth i wasanaethau gael eu diwygio'n unol â chyfeiriad strategol y strategaeth hon, ynghyd â pheth cyllid o'r Gronfa Gofal Integredig, er mwyn cynorthwyo i drawsnewid gwasanaethau a thorri tir newydd.

Bydd meysydd canlyniadau allweddol ac argymhellion y strategaeth hon yn cael eu dwyn ymlaen gan bartneriaid ar draws patrwm rhanbarthol ehangach Hywel Dda, dan gyfarwyddyd Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.

Ar lefel leol, bydd y themâu a'r argymhellion diweddaraf, fel y'u gosodir yn y strategaeth hon, yn cael eu blaenoriaethu gan Fwrdd Partneriaeth Anableddau Dysgu Ceredigion.

# ATODIAD 1: Cysylltiadau ac Aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Anableddau Dysgu


Mae'r diagram hwn yn dangos y cysylltiadau rhwng y grwpiau/byrddau rhanbarthol a lleol:



## ATODIAD 2: Data Ceredigion – Pobl y mae gofal cymdeithasol yn gwybod amdanynt sy’n derbyn gwasanaethau

Mae'r graffiau a'r tablau hyn yn rhoi manylion am y dynion a'r merched ag anableddau dysgu y mae'r gwasanaethau'n gwybod amdanynt ac yn darparu ar eu cyfer.

Oed	Dynion	Merched	Cyfanswm
18-24	64	37	101
25-44	96	59	155
45-64	77	50	127
65-76	21	7	28
77+	13	6	19



Er bod y mwyafrif o bobl sy'n cael cymorth ar hyn o bryd yn ei dderbyn trwy'r gymuned, mae canran y rhai sydd mewn gofal preswyl yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac mae'r rhan fwyaf o hwn yn cael ei gyflenwi gan ddarparwyr preifat.

Mae opsiynau'n cael eu harchwilio ar hyn o bryd i wella'r dewis o lety sydd ar gael, ac mae hwn yn cael ei gynnwys fel rhan o'r strategaeth ar gyfer gwella llety a thai.

Pobl sy'n derbyn gofal a chymorth drwy ofal preswyl.	Pobl sy'n derbyn gofal a chymorth drwy ofal cymunedol
30% (59 o bobl)	70% (135 o bobl)
Gofal preswyl yr Awdurdod Lleol	Gofal Preswyl y Sector Annibynnol
3% (2 berson)	97% (57 o bobl)




Mae'r graff hwn yn dangos bod mwy o ddynion na merched ag anabledd dysgu, a gellir gweld y duedd hon ar draws yr ystod oedran yn y graff isod.

Mae'r gwahaniaeth rhwng nifer y dynion a'r merched yn fwyaf amlwg ar ben iau a phen hŷn y graffiau.

Mae yna ddwy garfan o bobl 53-60 a 46-48 oed a fydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gwasanaethau wrth iddyn nhw fynd yn hŷn, oherwydd y gydberthynas glos rhwng dementia ag anableddau dysgu.

Wrth gynllunio gwasanaethau, bydd angen rhoi ystyriaeth i'r garfan fawr o bobl 18-30 oed, sef mwyafrif y bobl ag anabledd dysgu.





### ATODIAD 3: Dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd i holiadur ynghylch cael mynediad i Wasanaethau Iechyd

